

Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

Dehongli Cymru

Interpret Wales

Hydref Autumn
2010 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

14

Yn y rhifyn hwn In this issue

Dehongliad i bawb trwy
sain a chyffyrddiad

Interpretation for all
in sound and touch

Mynediad i bob Man
Access all areas

MP3s yn y coed
MP3s in the woods



Mynediad mewn oes ddigidol

DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES

Rhifyn 14 Hydref 2010

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu:

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd y cyhoedd dros ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy gyfrwng dehongli o'r safon uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr drwy rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a gynrychiolir gan yr asiantaethau sydd a'u logos yn ymddangos isod.

Cynnwys

4-5 Dehongliad i bawb trwy Sain a Chyffyrddiad
Julia Ionides and Peter Howell

8-9 Dod â chwaraewyr MP3 i'r coed
Graeme Stringer

12-13 Mynediad i bob Man
Emma Wilson and Ruth Taylor Davies

16-17 Profiadau ym myd dehongli
Phil Jayne

20 Gwobrau Jodi
Marcus Weisen

Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales / Dehongli Cymru

Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
ffôn: 01792 881762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru
Ruth Waycott

ruth@waycott.fsnet.co.uk
ffôn: 01600 860779

Clawr Blaen a chwith uchod: Coetir cymunedol ger Bryn-crug, Tywyn. De uchaf: Celfyddydau ac amgueddfeydd Wolverhampton, Enillydd Gwobr Jodi. De gwaelod: Cerddwyr anabl, Cwm Rhaeadr. Y cyfan gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Odan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig, mae gan bobl anabl hawl i gymryd rhan mewn diwylliant ar delerau cyfartal. Yn ymarferol, anabl iawn y ceir mynediad cyfartal i'n treftadaeth, cefn gwlad a manau arbennig, a'r gwefannau cysylltiedig.

Efallai ein bod ni wedi dod ymhell o ran gwella mynediad corfforol ar gyfer y 450,000 o bobl yn y DU sy'n defnyddio cadair olwyn, ond nid yw hyn ond 5% o bobl anabl. Mae gwir gydraddoldeb yn golygu mwy na mynediad corfforol. Mae mynediad deallusol yn arbennig yn parhau i fod yn broblem sylweddol sy'n cyfyngu ar fwynhau diwylliant.

Bu Marcus Weisen, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Jodi Mattes dros Ddiwylliant Digidol Hygyrch, yn siarad yn ddiweddar mewn seminar ar Gynhwysiant Digidol i Bobl Anabl a gynhaliwyd gan CyMAL. Bu'n sôn am y nifer fawr o brosiectau amgueddfaol a threftadaeth a gafodd eu hariannu yn ystod y degawd diwethaf a dywedodd, 'Ychydig iawn o sylw y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei roi i fynediad deallusol i bobl anabl'. Mae ef yn credu y gallwn, drwy ddehongli casgliadau a safleoedd mewn ffyrdd sy'n hygyrch i grwpiau penodol o bobl anabl, wella effeithiolrwydd dehongli i'n holl gynulleidfaoedd.

Mae rhai amgueddfeydd yn arbrofi gyda 'chyfathrebu cyffredinol'. Mae'r Tate wedi datblygu imap Tate, adnodd celfyddydol ar-lein ar gyfer pobl â nam ar eu golwg sydd â diddordeb mewn celfyddyd. Mae'n cynnwys testun, sain, gwella a daddeiladu delweddau, animeiddio, a delweddau wedi'u codi. Rhowch gynnig arni yn www.tate.org.uk/imap.

Mae pobl sydd â golwg cyfyngedig neu sy'n ddall yn defnyddio darlennyddion sgrin i ddarllen y testun ar y sgrin allan iddynt. Yn aml iawn, mae'r ffordd y mae gwefannau wedi cael eu dylunio a'u hadeiladu yn rhwystro darlennyddion sgrin rhag gweithio'n effeithiol. Gallwn helpu drwy sicrhau bod tudalennau gwe yn eglur a



chlir, drwy ddefnyddio ffeiliau testun yn hytrach na ffeiliau pdf (nad yw darlennyddion sgrin yn gallu eu cyrchu) a thrwy roi teitlau i ddarluniau fel bod meddalwedd darlennyddion sgrin yn gallu eu disgrifio. Dywedwch wrth eich dylunwyr a rheolwyr gwefannau am ganolfan adnoddau ar-lein di-dâl Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB). Mae'r RNIB hefyd wedi datblygu llais synthetig Cymraeg, sy'n caniatáu i siaradwyr Cymraeg dall a rhannol ddall bori mewn gwefannau Cymraeg. (Gweler www.rnib.org.uk)

Mae disgrifiadau testun o gynnwys sain yn helpu pobl fyddar, er bod gan lawer o bobl a anwyd yn fyddar sgiliau gwyddor gwael, ac mae arwyddo yn hanfodol ar eu cyfer. Yng Nghymru, yr Iaith Arwyddo Brydeinig yw iaith gyntaf/iaith ddewisol tua 3,000 o bobl, a cheir rhai arwyddwyr sy'n siarad Cymraeg.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ganllaw, *Improving your project for disabled people*, y gallwch ei lawrlwytho yn www.hlf.org.uk. Gallwch hefyd gael llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar wefan Gwobrau Jodi www.jodiawards.org.uk. Ar dudalen gefn y rhifyn hwn, ceir gwybodaeth am Wobrau Jodi 2011 ar gyfer diwylliant digidol hygyrch. Rwyf yn gobeithio y bydd yna ymgeiswyr ac enillwyr o Gymru.

Diolch i'n holl gyfranwyr, ac i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru am y gwasanaeth cyfieithu.

Ruth Waycott

Access in a digital age

Under the United Nations Convention disabled people have the right to participate in culture on equal terms. In practice, access to our heritage, countryside and special places, and their supporting websites, is rarely equal. We may have come a long way in terms of improving physical access for the 450,000 people in the UK who use a wheelchair, but that's only 5% of disabled people. True equality runs deeper than physical access. Intellectual access especially, continues to be a significant issue limiting the enjoyment of culture.

Marcus Weisen, the Director of the Jodi Mattes Trust for Accessible Digital Culture, spoke at a recent CYMAL seminar on Digital Inclusion for Disabled People. Talking about the large number of museum and heritage projects which have been funded over the last decade his view was that, 'The majority pay scant attention to intellectual access for disabled people'. He believes that by interpreting collections and sites in ways that are accessible to specific groups of disabled people, we will improve the effectiveness of interpretation for all our audiences.

A few museums are experimenting with 'universal communication'. The Tate has developed Tate imap, an online art resource for visually impaired people who are interested in art. It incorporates text, audio, image enhancement and deconstruction, animation and raised images. Try it out at www.tate.org.uk/imap.

People with limited or no vision use screen readers to read aloud text on screen. Often the way that websites are designed and built prevents screen readers from working effectively. We can help by ensuring web


pages are unfussy and clear, by using text files rather than pdfs, (which can't be accessed by screen readers) and by giving pictures titles so that they can be described by screen reader software. Tell your web designers and managers about the Royal National Institute for the Blind's free online resource centre. RNIB have also developed a Welsh synthetic voice, allowing blind and partially sighted Welsh speakers to surf Welsh language websites. (See www.rnib.org.uk)

Text descriptions of audio content help deaf people, although many deaf born people have poor alphabet skills, and for them signing is vital. In Wales British Sign Language is the first, or preferred language of an estimated 3,000 people and there are a few Welsh speaking signers.

If you'd like more information The Heritage Lottery Fund has a guide, *Improving your project for disabled people* which you can download at www.hlf.org.uk. You will also find much useful information on the Jodi Awards website www.jodiawards.org.uk. On the back page of this issue there's information about the 2011 Jodi Award for accessible digital culture. I hope that there will be entries, and winners, from Wales.

With thanks to all our contributors and to Forestry Commission Wales for translation services.

Ruth Waycott



INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU

Issue 14 Autumn 2010

Published by the Countryside Council for Wales on behalf of the Dehongli Cymru/Interpret Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Forestry Commission Wales

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public about our natural and cultural heritage through interpretation of the highest quality, and to support interpreters by networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing the agencies whose logos appear below.

Contents

6-7 Interpretation for all in sound and touch
Julia Ionides and Peter Howell

10-11 Bringing MP3s to the trees
Graeme Stringer

14-15 Access all areas
Emma Wilson and Ruth Taylor Davies

18-19 Some brushes with interpretation
Phil Jayne

20 The Jodi Awards
Marcus Weisen

Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
tel: 01600 860779

Front Cover and above left: Community woodland near Bryn-crug, Tywyn. Top right: Wolverhampton arts and museums, a Jodi Award Winner. Bottom right: Disabled ramblers, Cwm Rhaeadr. Forestry Commission Wales.



Mae Ymddiriedolaeth Dog Rose yn gweithredu er mwyn darparu'r dehongliad gorau posibl trwy gyfrwng sain a chyffyrddiad i bawb, gan gynnwys pobl sy'n ddall neu bobl â nam ar eu golwg. Mae

Julia Ionides a Peter Howell

yn rhannu rhai o'u hoff brosiectau.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf rydym wedi gweithio ym mhedair gwlad y DG, gan gynnwys naw eglwys gadeiriol yn Lloegr trwy'r prosiect *Cathedrals through Touch and Hearing*. Rydym hefyd wedi cynnal gweithdai ac wedi annerch mewn sawl gwlad dramor, ond er gwaethaf hyn ac ymdrechion sawl un arall, mae'r ddarpariaeth i bobl â nam ar eu golwg yn dal i fod yn wael a thameidiog. Fel arfer mae'r prosiectau gorau'n cael eu sbarduno gan un person a phan fydd y person hwnnw'n gadael mae'r prosiect yn cael ei esgeuluso neu ei ddiddymu. Nid arian yw'r brif broblem, er gall diffyg arian atal gwneud unrhyw beth o gwbl. Gwariwyd miliynau

Dehongliad i bawb trwy sain a chyffyrddiad

o bunnau ar Amgueddfa Ashmole yn Rhydychen a Chanolfan Darwin yn yr Amgueddfa Byd Natur ond, fel y nodwyd gan Marcus Weisen yn *Museums Journal*, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth ar gyfer pobl â nam ar eu golwg. Enghraifft arall oedd Amgueddfa Drafnidiaeth Coventry lle bu prosiect cyllideb-isel gennym ni ac eraill â nam ar eu golwg gyda modelau o geir, cynlluniau llawr cyffyrddol lliw a thywysydd sain gyda thrac cyffyrddol glas i'w ddilyn. Nid oedd wedi ei lansio hyd yn oed cyn i'r Amgueddfa gael Statws Dynodedig ac arian i ail-arddangos - a chafodd yr hyn a wnaethom ni ei ddileu'n raddol, heb ddim i gymryd ei le.

Cafwyd llawer o ganlyniadau positif, fodd bynnag: yn ddiweddar cwblhawyd tywysydd sain gennym ar gyfer Amgueddfa Llwydlo ynghyd ag eitemau cyffyrddol i'r rhan fwyaf o gypyrddau arddangos, tywysyddion print bras a Braille a lluniau cyffyrddol. Buom yn gweithio gyda'r gymuned leol i recordio'r cyflwyniadau a hanes llafar a gwybodaeth arbenigol yn ymwneud â'r arddangosiadau. Gyda chymorth grant, cynhyrchwyd y pecyn *Listening to Ludlow* gennym, sef llyfryn

cyffyrddol a theithiau sain o'r dref, castell ac eglwys; yn ddiweddarach gwnaethom gomisiynu dau gopi o'r llyfryn i'w hargraffu gan system argraffu copog newydd Roland - sy'n ddrud ond yn para'n dda ac yn ddarllenadwy. Mae peiriant argraffu uwchfioled Roland yn argraffydd digidol masnachol sy'n galluogi argraffu lliw ar amryw o gyfryngau a haenen gyffyrddol dros y cyfan. Caiff yr haenen gyffyrddol ei rhwymo trwy ddefnyddio golau uwchfioled. Mae'r paneli llawn-lliw cyffyrddol awyr-ogored cyntaf ar gyfer safle yng Ngwlad-yr-haf yn cael eu hargraffu gan beiriant Roland ar hyn o bryd. Rydym yn teimlo'n gyffrous ynglŷn â hyn ac yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau.

Mae tywysydd ar gyfer Senedd yr Alban newydd gael ei gynhyrchu gan Somerville Scan, sef cwmni y buom yn cydweithio ag ef. (www.somervillescan.co.uk/home). Bydd model printiedig 3D arloesol o Gastell Llwydlo yn ei le cyn bo hir; mae argraffu 3D yn defnyddio technegau prototeipio cyflym.

'Mae modelau cyffyrddol yn elfen hollbwysig o unrhyw system ddehongli; maen nhw'n darparu'r wybodaeth na all y llygaid ei gweld trwy'r bysedd,' meddai Eric Sayce, ymgynghorydd dall sy'n gweithio gyda ni. Mae ein holl brosiectau'n cael eu gwneud ar y cyd â phobl eraill â nam ar eu golwg; mae eu cyngor nhw bob amser yn werthfawr dros ben yn ystod y cynnodau cynllunio, yr un fath â'u gwerthuso pan fo'r gwaith wedi'i gwblhau.

Rhaid darparu cyhoeddusrwydd eang a hygyrch oherwydd mae'n cymryd amser i gyrraedd y cynulleidfaoedd targed, ac felly mae amynedd yn gaffaeliad gwerthfawr. Mae modd rhoi cyhoeddusrwydd trwy wefan y lleoliad ei hun; papurau newydd a chylchgronau llafar; Canolfannau Adnoddau i Bobl â Nam ar eu Golwg a'u Synhwyrau (mae'r rhain yn amrywio o ardal i ardal) a manau fel meddygyfeydd.



Model pren o'r Faenor, Llanllieni, yn barod i'w fwrw mewn efydd
Wooden model of the Grange, Leominster, ready for casting in bronze

Gwneud gwaith gwerthuso ar gyfer taith glywedol a chyffyrddol Amgueddfa Llwydlo
Carrying out evaluation on Ludlow Museum's audio and tactile tour



Gwneud gwaith gwerthuso ar gyfer taith glywedol a chyffyrddol Amgueddfa Llwydlo
Carrying out evaluation on Ludlow Museum's audio and tactile tour



Profi 'drafft' y model o Amgueddfa Downpatrick
Testing out the 'draft' of the model of Downpatrick Museum

Panel gwybodaeth ddarluniadol yng Nghanolfan Cefn Gwlad Clynyfwy
Pictorial information panel at Clynyfwy Countryside Centre

Rydym wedi cwblhau rhai prosiectau diddorol yng Nghymru. Yn Amgueddfa Brycheiniog yn Aberhonddu, rydym wedi dylunio arwyddion cyffyrddol dwyieithog ynghyd â Braille. Cafodd symbolau lliw eu defnyddio gennym ar gyfer yr orielau er mwyn osgoi gorlwytho arwyddion o amgylch yr adeilad â geiriau. Hefyd, cafodd drama ar gyfer ystafell y llys barn eu hysgrifennu a'i recordio gennym mewn cymysgedd o Gymraeg a Saesneg; yn y 19eg canrif, Saesneg oedd iaith y llys. Buom yn gweithio gyda staff yr amgueddfa a phobl leol er mwyn cael yr acenion Cymreig cywir. Arweiniwyd y cynhyrchiad gan actor proffesiynol, sef Edward Kelsey, sy'n chwarae rhan Joe Grundy yn *The Archers*. Rhoddodd y prosiect lawer o fwynhad.

Oddi ar hynny, ar y cyd â Matthew Lloyd o Think Graphic yn Llwydlo, rydym, wedi dylunio paneli sgrin-sidan dwyieithog i Ganolfan Cefn Gwlad Clynyfwy, Castell Caerw a chynlluniau ac enwau ar ddrisau i Ganolfan Dydd Trefynwy, ynghyd â chyfrannu at adroddiad i Gefn Gwlad Cymru ar gyfer The Access Company.

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi dylunio a rheoli prosiect ar gyfer model

cyffyrddol o Amgueddfa Swydd Down sydd ar safle'r hen garchar. Buom yn gweithio gyda grŵp o bobl â nam ar eu golwg er mwyn gwerthuso'r model 'drafft' cyn ei fwrw mewn efydd).

Yn yr Alban, sefydlwyd prosiect gennym ar y cyd â Chyngor Rhanbarthol Ystrad Clud, sef *Communities in Touch*. Nod y prosiect oedd darparu modelau cyffyrddol o adeiladau'r prif grefyddau yn y ddinas - ac mae'r rhain yn niferus. Yn anffodus, ni aethom ymhellach na model pren o Eglwys Gadeiriol Glasgow a'i chyffiniau, gan ddefnyddio model a wnaed gan

benseiri cynllun aiddatblygu ar gyfer yr ardal. Hefyd, roedd yna system sain ryngweithiol ac arloesol â mynediad trwy wasgu botwm a throsglwyddydd is-goch a derbynnydd clustffon. Bellach mae modd lawrlwytho sain o'r rhyngwrwyd i beiriannau MP3 a ffonau symudol. Mae llawer o'n prosiectau sain ar www.dogrosesound.org ac mae modd eu lawrlwytho fel feiliau MP3, gan gynnwys sawl recordiad ar gyfer Walk London, gyda'r nod o wneud y deunydd yn fwy hygyrch i bawb.

Julia Ionides yw'r Weinyddwraig a Peter Howell yw'r Ymgynghorwr yn Ymddiriedolaeth Dog Rose. e: julia@dogrosetrust.org.uk ff: 01584 874567 www.dogrose-trust.org.uk

Os hoffech gael copi o lyfr Julia Ionides a Peter Howell, *Another Eyesight: Multi-Sensory Design in context*, gallwch ei brynu am bris arbennig o £10 ynghyd â £3.50 am bacio a chludiant o: www.dogrose-press.co.uk.

The Dog Rose Trust works to provide the best possible interpretation in sound and touch for everyone, including people who are blind and visually impaired. **Julia Ionides** and **Peter Howell** share some of their favourite projects.

Interpretation for all in sound and touch

Eric Sayce, ymgynghorydd i Ymddiriedolaeth Dog Rose yn archwilio'r model o ganol dinas Caerefrog
Eric Sayce, consultant to the Dog Rose Trust, exploring the Model of the centre of the City of York



Prosiect llawn heriau oedd y toposgop efydd cyffyrddol 'Feel the View' yn y Chilterns Gateway, Dunstable. 'Feel the view' toposcope at The Chilterns Gateway, Dunstable, Bedfordshire.



Defnyddir y model o Balas San Steffan gan yr holl dywyswyr i ddangos y llwybr i ymwelwyr. The model of the Palace of Westminster is used by all the guides to show visitors the route – a real universal design.

Over the past twenty years we have worked in the four countries of the UK, including nine English Cathedrals with the *Cathedrals through Touch and Hearing* project. We have given workshops and talks in many countries abroad, but despite this, and the efforts of many others, the provision for people with visual impairments is still poor and patchy. The best projects are usually driven by one person and when they leave that project is neglected or scrapped. Money is not the main problem, although lack of it can prevent anything being done at all. Both the Ashmolean Museum in Oxford and the Darwin Centre at the Natural History Museum have had millions spent on them but, as Marcus Weisen has pointed out in the *Museums Journal*, no provision has been made for people with visual impairments. Another example was at the Coventry Transport Museum where, together with visually impaired colleagues, we did a very low budget project with models of cars, coloured tactile floor plans and an audio guide with a blue tactile track to follow. It had not even been launched before the Museum was given Designated Status and money to redisplay and what we had done was gradually swept away, never to be replaced.

There has been much that is positive: we have recently completed an audio guide for Ludlow Museum together with tactile items for most of the display cases, large print and Braille guides and tactile pictures. We worked with the local community to

record the narration and oral history and expert information relating to the displays. With a grant we produced the *Listening to Ludlow* pack - a tactile booklet and audio tours of the town, castle and church; later, we commissioned two copies of the booklet to be printed by Roland's new system of raised printing – expensive but very durable and readable. The Roland UV printer is a commercial digital printer that enables full colour printing on a selection of media with a tactile layer overlaid. The tactile layer is bonded using Ultra Violet light. The first outdoor full colour and tactile panels for a site in Somerset are currently with the Roland printer. We are very excited about this and look forward to seeing the results.

A guide for the Scottish Parliament has just been produced by Somerville Scans who we worked with. (<http://www.somervillescan.co.uk/home>). An innovative 3D printed model of Ludlow Castle will be in place soon; 3D printing uses rapid prototyping techniques.

'Tactile models are an essential component of any interpretation system, providing the information with the fingers which the eye cannot see' says Eric Sayce, a blind consultant who works with us. All our projects are done in conjunction with our visually impaired colleagues whose advice is always most valuable during the planning stages and their evaluation when the work is completed.

Wide and accessible publicity must be given as it takes time to reach the target

audiences and visitors, so patience is an important asset. Publicity can be done through the venue's own website, local Talking Newspapers and magazines, Visually and Sensory Impaired Resource Centres (these vary from area to area) and places such as doctor's surgeries.

Modelau tri-dimensiwn cyffyrddol â Braille yw'r ddarpariaeth orau o bosibl i bobl sy'n ddall; yn sicr, y rhain sydd fwyaf poblogaidd. Mae model efydd, megis yr un o dref hanesyddol Wymondham yn Norfolk yn gostus ond yn para'n dda a gobeithiwn y bydd y technegau argraffu 3D yn dod â'r pris i lawr. Tactile 3 dimensional models with Braille are perhaps the best provision of all for people who are blind and certainly the most popular. A bronze model, such as the one of the historic town of Wymondham in Norfolk, is costly, but very durable and we hope that the 3D printing techniques will bring down the price.



Trawslun o fodel Castell Llwydlo
A section of the Ludlow Castle model

We have carried out some interesting projects in Wales. At Brecknock Museum, Brecon we designed bi-lingual tactile signage with Braille. We used coloured symbols for the galleries so that signage around the building did not become overloaded with words. We also wrote and recorded a drama for the courtroom in a mix of English and Welsh; in the 19th century the language of the court would have been English. We worked with museum staff and local people for the correct Welsh accents and the production was lead by a professional actor, Edward Kelsey, better known as Jo Grundy on Radio 4's *The Archers*. It was a satisfying project to work on.

Since then we have, with Matthew Lloyd of Think Graphic in Ludlow, designed silk screen bi-lingual panels for Clynfwy Countryside Centre, Carew Castle and plans and door names for Monmouth Day Centre, as well as contributing to a report for CCW for the Access Company.

In Northern Ireland we designed and project managed a tactile model of the Down County Museum which is on the site of the old gaol. We worked with a local visually impaired group to evaluate the 'draft' model before it was cast in bronze.

In Scotland, we set up a project with Strathclyde Regional Council called Communities in Touch. This aimed to provide tactile models of the buildings of the main religions in the city of which there are many. Unfortunately, we never got beyond the wooden model of Glasgow



Cathedral and its precinct, using a model made by the architects for the redevelopment of the area. There was also an innovative interactive sound system, accessed via press button and an infra-red transmitter and headset receiver. Now sound can be downloaded from the internet on to MP3 players and mobile phones. Many of our audio projects are on www.dogrosesound.org and can be downloaded as MP3 files, including many recordings for Walk London, designed to make their material more accessible to all.

Julia Ionides is the Administrator and Peter Howell, Consultant at the Dog Rose Trust.
e: julia@dogrosetrust.org.uk
t: 01584 874567
www.dogrose-trust.org.uk

If you would like a copy of Julia Ionides and Peter Howell's book, *Another Eyesight Multi-Sensory Design* in context you can buy it at the special price of £10 plus £3.50 p&p from www.dogrose-press.co.uk.

Dod â chwaraewyr MP3 i'r coed ym Mharc Coedwig Coed y Brenin



Os ewch chi i lawr i'r goedwig heddiw, fe fyddwch chi'n siŵr o gael eich synnu fel y cewch glywed! **Graeme Stringer** sy'n esbonio sut mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn defnyddio chwaraewyr MP3 i wella'r profiad mewn goedwig i bobl â nam ar eu golwg.

Mae Parc Coedwig Coed y Brenin, sy'n ymestyn dros oddeutu 9,000 o erwau yn rhan ddeheuol Parc Cenedlaethol Eryri, yn denu miloedd o ymwelwyr oherwydd llwybrau beicio byd-enwog, canolfan ymwelwyr nodedig a rhwydwaith helaeth o lwybrau ag arwyddion cyfeirio. Mae'r lle hwn sydd dan ofal Comisiwn Coedwigaeth Cymru' yn mynd yn fwy poblogaidd bob blwyddyn. Mae'r staff hamdden yno'n wynebu her o gyflwyno 130,000 o bobl i'r goedwig yn flynyddol, ac mae gan rai o'r ymwelwyr anghenion mynediad penodol. Cafodd y ganolfan ymwelwyr, a agorwyd ym mis Awst 2006, ei hadeiladu gyda golwg ar fynediad i bobl anabl, ac mae'r darpariaethau'n cynnwys:

Y dyn adar, lolo Williams, a leisiodd y sylwebaeth ar gyfer y llwybrau llafar, gyda disgyblion ysgol yn ystod lansio'r llwybr MP3. Teithiau MP3 wedi'u cynhyrchu gan audiotrails.co.uk
Birdman lolo Williams, who provided the voiceover for the audio trails, with local Dolgellau school children at the MP3 trail launch. MP3 trails produced by audiotrails.co.uk



Y rheolwr ardal lleol, Aled Thomas, gyda grŵp ysgol yn edmygu'r ceunant o dan Bont Llam yr Ewig, lle mae peiriant weindio sain yn ailadrodd hanes y wrach leol, Sali Dôl y Clochydd.
Local area manager Aled Thomas, with a school group at the viewpoint looking down into the gorge below Pont Llam yr Ewig, where a wind up-audio store re-tells the tale of the local witch, Sally Dol y Clochydd.

- arwyddion cyfeiriad dwyieithog a braille
- dolenni sain
- mynediad i'r caffi ac i fan gwybodaeth ar hyd wyneb gwastad yn syth o fan parcio wedi'i neilltuo o flaen yr adeilad
- liffi i'r llawr isaf i'r toiledau ac i'r llawr uchaf i'r ystafell gynadledda.

Wrth ddefnyddio cynllun dehongli'r safle, rydym hefyd wedi creu nifer o eitemau ar gyfer dehongli a darparu gwybodaeth ac sydd wedi ychwanegu at hwylustod a mwynhad ymwelwyr anabl. Ymhlith yr eitemau mae:

- fersiwn braille o'r tywysydd cerdded
- cerfluniau llechi cyffyrddol
- meinciau pren cerfiedig hygyrch
- carw gwiall o faint llawn
- cyfleuster sy'n galluogi gorwedd a gweld brigau'r coed yn gyfforddus
- arwyddion dehongli (arwyddion bach yn 'diflannu' ac yn troi'n byst) gyda ffaith ddi-ddorol am y rhywogaethau coed
- pyst "weindio" chwedlau llafar sy'n adrodd chwedlau llên gwerin lleol yn ddwyieithog.

Wrth gerdded yng Ngogledd Swydd Efrog, daeth y rhodiwr hamdden Graeme Stringer ar draws postyn pren wrth ymyl y llwybr a'r llythrennau MP3 arno. Gyda'i frwdfrydedd wedi'i danio, bu'n ystyried lle orau y gellid cael llwybrau llafar ym Mharc Coedwig Coed y Brenin, nid yn unig i wella mynediad i bobl llai abl a grwpiau teuluol - yn enwedig y rhai â phlant sy'n gwerthfawrogi technoleg - ond hefyd i adrodd hanesion diddorol am y goedwig a'i hanes!

Gan weithio gyda Steven Richards-Price, Rheolwr Dylunio a Dehongli Comisiwn Coedwigaeth Cymru, penderfynodd Graeme ar bedair taith gerdded. Mae tair yn llwybrau pob-gallu sy'n bodoli ac a adeiladwyd yn ôl rhagofynion Ymddiriedolaeth Fieldfare gyda:

- graddiant o ddim mwy na 5%
- wyneb cywasgedig llydan y mae ei liw'n cyferbynnu'n dda â'r llystyfiant o'i amgylch
- manau gorffwys mynych â meinciau a manau parcio wedi'u neilltuo.

Gellid defnyddio'r pedwerydd llwybr gan seicwyr teuluol yn ogystal â cherddwyr.

Y nod oedd cynyddu eu defnydd gan ymwelwyr ag anableddau'n ymwneud â symudedd neu'r golwg, ac ysgrifennwyd

cynllun deongliadol gennym er mwyn creu ein negesau allweddol ar gyfer pob taith.

Llwybr Afon Eden

Mae hwn yn dilyn llwybr pob-gallu Afon Eden o'r ganolfan ymwelwyr ac mae'n canolbwyntio ar fywyd gwylt y goedwig, y rheswm pam oresgynnwyd gwledydd Prydain gan y Rhufeiniaid dros 2000 o flynyddoedd yn ôl, a hanesion cyffrous am hanes porthmona'r ardal wrth i'r llwybr ymdroelli tua'r safle picnic ar lan yr afon yn Nolgefeiliau.

Llwybr Marchogion y Brenin

Mae hwn yn dilyn y llwybr pob-gallu at y "Brenin", sef y goeden uchaf yn y goedwig. Mae ein coedwigwr lleol, Aled Thomas, yn adrodd hanes y coed, am farwolaeth waedlyd heliwr planhigion a sut mae'r coed enfawr yn cael eu cwmpo ar gyfer eu pren.

Llwybr Copr Glasdir

Llwybr arall sy'n rhannol seiliedig ar llwybr pob-gallu. Mae cyfle i archwilio adfeilion a threftadaeth ddiwydiannol gyfoethog y mwynglawdd copr yng nghanol cefn gwlad Cymru a fu unwaith yn fyd-enwog.

Llwybr y Rhaeadrau a'r Mwyngloddiau Aur

Mae'r llwybr hwn yn bennaf seiliedig ar heolydd goedwig. Mae'n addas ar gyfer teuluoedd a chadeiriau gwthio ac mae'n rhoi cyfle i archwilio llwyddiannau a meth-iannau'r chwilio am aur yng Nghymru a'r broses beryglus ofnadwy o wneud powdwr gwn. Gall ymwelwyr ar llwybr seiclo teuluol 'Yr Afon' hefyd ddilyn y llwybr llafar hwn.

Mae modd lawrlwytho pob stori am ddim o wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru (www.forestry.gsi.gov.uk/cymru) ynghyd â map o leoliad y llwybr a fersiwn wedi'i argraffu o'r sgript sain a allai gael ei ddefnyddio gan bobl â nam ar eu clyw. Cafodd y llwybrau llafar - y rhai cyntaf i gael eu sefydlu yng nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru - eu lansio'n swyddogol gan y cyflwynydd teledu lolo Williams, sydd hefyd wedi lleisio'r storiâu.

Cafodd y prosiect llwybrau llafar ei gyllido gan yr elusen "Rock Trust" o Feirionnydd.


Mae Graeme Stringer yn Rhodiwr Hamdden i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yng Nghoed y Brenin
ff. 0300 068 0300
[e. graeme.stringer@forestry.gsi.gov.uk](mailto:graeme.stringer@forestry.gsi.gov.uk)

Un o wardeiniaid y Parc Cenedlaethol, Rhys Gwynne, yn siarad â disgyblion ysgol yng Ngardd y Goedwig uwchben Pont Llam yr Ewig. National Park Warden Rhys Gwynne talking to local school children in the Forest Garden above Pont Llam yr Ewig, the Bridge of the Stag's Leap.



Y bont siglo yn y prif fan chwarae yn y ganolfan ymwelwyr, yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn, ond yn boblogaidd hefyd gan blant sy'n hoffi hyrddio i gilydd i'r awyr. Mae'n un o blith nifer o eitemau hygyrch yn y man chwarae.

The rocking bridge in the main play area at the visitor centre is suitable for wheelchairs, and also much loved by small children who catapult each other into the air. It is one of a number of accessible activities in the play area.



Bringing MP3s to the trees in Coed y Brenin Forest Park

If you go down to the woods today you're sure of a big surprise.... a noisy surprise! **Graeme Stringer** explains how Forestry Commission Wales are using MP3 players to improve the forest experience for people with sight-related disabilities.

Covering around 9,000 acres in the south of Snowdonia National Park, Coed-y-Brenin Forest Park is a honeypot for visitors, attracted by its world-famous mountain bike trails, state of the art visitor centre and extensive network of waymarked walks.

The Forestry Commission Wales location gets more popular every year, presenting recreation staff with the challenge of connecting more than 130,000 people annually with the forest, some of whom have particular access requirements. The visitor centre, which opened in August 2006, was constructed with disabled access in mind providing:

- bi-lingual braille orientation signage
- induction hearing loops
- entry to the café and information area on a level surface direct from dedicated parking in front of the building
- a lift to the lower floor for toilet facilities and to the upper floor conference room.

Working from the site interpretive plan we have also created a number of items of interpretation and information value which have added to the quality of the visitor experience for disabled visitors, including:

- a braille version of the walking guide
- tactile carved slate sculptures
- accessible sculpted wooden benches
- a life size wicker stag
- a "tree-top viewer" for lying back and gazing at the treetops in relative comfort



Y mynediad i'r ganolfan ymwelwyr o'r prif faes parcio. Approach to the visitor centre from the main car park.

- interpretive Signalsigns (small signs 'disappear' into posts) with a fascinating fact about tree species
- "wind-up" audio story posts telling bi-lingual tales of local folklore.

Walking in North Yorkshire, I happened upon a wooden post beside a footpath with the text MP3 routed into it - a point on an MP3 audio trail. With inspiration ignited, I looked at where audio trails would be best suited in Coed y Brenin Forest Park, not only to enhance access for the less able and family groups - especially those with technologically aware children - but also to tell cracking stories of the forest and its history!

Working with Steven Richards-Price, Forestry Commission Wales' Design and Interpretation Manager, we decided on four walks. Three are existing all ability trails built to Fieldfare Trust specifications with:

- a maximum 5% gradient
- a wide compacted surface which has a good colour contrast with the surrounding vegetation
- frequent resting places with benches and dedicated parking.

The fourth trail could also be used by family cyclists as well as walkers. The aim was to increase their use by visitors with mobility or sight-related disabilities, and we wrote an interpretive plan to work out our key messages for each trail:

Afon Eden Trail

This follows the Afon Eden all-ability trail from the visitor centre and features forest wildlife, the reason why the Romans invaded Britain over 2000 years ago, and dramatic tales of the area's droving history as you meander down to the riverside picnic site at Dolgefeillau.

King's Guard Trail

This follows the all-ability trail to the "King", the tallest tree in the forest, and our local forester Aled Thomas tells the tale of how the trees got here, the gory demise of a plant hunter and how these woodland monsters are felled for timber.

Glasdir Copper Trail

Another walk which is partially based on an all ability trail, exploring the ruins and rich industrial heritage of this once world-famous copper mine in the heart of rural Wales.

Waterfalls and Goldmines Trail

This trail is based mainly on forest roads, is suitable for families and pushchairs, and explores the highs and lows of the Welsh goldrush and the precarious and potentially deadly process of making gunpowder. Visitors on the 'Yr Afon' family cycle trail can also follow this audio trail.

Each story is available to download, free of charge, from the Forestry Commission Wales website (www.forestry.gsi.gov.uk/wales) along with a map of the location of the

trail and a printed version of the audio script which could be used by those with hearing difficulties. The audio trails - the first to be set up in Welsh Assembly Government woodlands - were officially launched by television wildlife presenter Iolo Williams who had provided the voiceover for the stories.

The audio trail project was funded by the Meirionnydd-based charity the "Rock Trust".

• • • • •

Graeme Stringer is Recreation Ranger at Coed y Brenin for Forestry Commission Wales t.0300 068 0300 e. graeme.stringer@forestry.gsi.gov.uk

Dau o'r cerfiadau llechi wrth ymyl llwybr pob-gallu Afon Eden sy'n arwain at safle picnic prydferth ar lan yr afon. Two of the slate carvings which are sited along the Afon Eden all ability trail which runs to a beautiful riverside picnic site next to the river.



A ydych chi wedi cynnwys eich Grŵp Mynediad Lleol yn eich prosiect diweddaraf? Mae **Ruth Taylor-Davies** ac **Emma Wilson** wedi gwneud hyn, ac wedi darganfod mai'r Grwpiau Mynediad Lleol yw'r arbenigwyr pan fo'n fater o wella mynediad i bawb.

Mynediad i bob man



Seddi gyda breichiau i'w gwneud yn haws eistedd a chodi. Seats with arms make it easy to sit down and get up

Y Tŷ Weindio yn Nhredegar Newydd yw amgueddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'r amgueddfa wedi'i lleoli mewn adeilad trawiadol, gyda wyneb o wybr, a adeiladwyd o gylch Tŷ Weindio hen Lofa Elliot, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o atyniadau ac arddangosfeydd sy'n adlewyrchu hanes cyfoethog a lliwgar Bwrdeistref Sirol Caerffili. Roedd cyfraniad y gymuned yn ganolog i'r prosiect, a ariannwyd gan Raglen Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Roedd darparu mynediad corfforol a deallusol ardderchog yn uchel ar restr blaenoriaethau'r Tŷ Weindio, ac mae'n parhau felly. Roedd y Gwasanaeth Amgueddfeydd a Threftadaeth o fewn y Cyngor Bwrdeistref yn awyddus i gael cyngor ymarferol arbenigol gan y Grŵp Mynediad Lleol yn ystod y camau cynllunio, datblygu a dehongli. Daeth Grŵp Mynediad Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili i mewn, a bu'n cydweithio â swyddogion i sicrhau

bod adeilad yr amgueddfa mor hygyrch â phosibl yn gorfforol. Roedd y grŵp yn gallu cynnig cyngor ar amrywiaeth o faterion, a rhoddodd arweiniad ymarferol ar sawl agwedd ar ddatblygiad yr Amgueddfa. Roedd yn arbennig o ddefnyddiol o safbwynt:

- Ein hatgoffa sut i greu a chadw mynediad di-rwystr
- Yr angen i osod system ddolen
- Pwysigrwydd defnyddio gwahanol liwiau i greu amgylchedd diogel a chroesawgar ar gyfer ymwelwyr rhannol ddall. Dylid sicrhau gwahaniaeth lliw rhwng lloriau a waliau, waliau a rheiddiaduron, cadeiriau a'r llawr, drysau a'r ardal o'u cwmpas, switshis a'r ardal o'u cwmpas, a socedi trydan a'r wal, a dylai sedd y toiled fod o wahanol liw i'r toiled ei hun.
- Gosod canllawiau addas (mae gan y Tŷ Weindio system ddwy haen o ganllawiau ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr) a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rhannau K ac M o'r Rheoliadau Adeiladu.
- Yr angen i sicrhau bod sticeri o wahanol liwiau'n cael eu gosod ar baneli gwyr

sy'n cyrraedd hyd y llawr er mwyn cael cyferbyniad. Argymhellir bod o leiaf 1 o bob 5 o'r 'logos' hyn yn rhai tywyll eu lliw, gan ei bod yn bosibl na fydd logos 'gwyn' yn amlwg ar ddiwrnod heulog.

- Cynllun y caffii, i sicrhau bod pobl o bob gallu yn gallu symud o gwmpas yn rhwydd. Dylai fod gan rai o'r cadeiriau freichiau, a dylai'r seddi fod tua 450mm uwch ben y llawr, i alluogi pobl sy'n cael trafferth i symud i eistedd a chodi'n ddiraffferth.
- Safle pethau ymarferol megis switshis golau, socedi trydan, dolennau drysau. Dylai socedi trydan gael eu gosod rhwng 400 a 1000mm o'r llawr, ar ran isaf yr amrediad yn ddefnyddiol, a dylai dolennau drysau fod yn hawdd gafael ynddynt, ac wedi'u lleoli rhwng 900 a 1500mm o'r llawr.
- Lled y drysau. Dylai hyn fod yn 800mm o leiaf yn achos drysau mewnol, 1000mm yn ddefnyddiol.

Cafodd y pwyntiau hyn groeso gwresog a chawsant eu rhoi ar waith gan dîm prosiect y Tŷ Weindio. Ac nid dyna ddiwedd y berthynas rhwng y Grŵp Mynediad a'r Tŷ Weindio. Flwyddyn wedi agor yr amgueddfa, cawsant eu gwahodd yn ôl fel rhan o broses gynllunio Datblygu Mynediad a Chynulleidfa y safle (a wnaed gyda chymorth Letha Consultancy). Roedd hyn yn arbennig o fuddiol gan fod y Grŵp Mynediad yn awr yn cael cyfle i weld sut yr oedd yr adeilad yn gweithio'n ymarferol. Gwnaeth y Grŵp ymweliad safle trylwyr gyda swyddogion, ac roeddynt bob amser yn ymarferol a chadarnhaol. Yn dilyn yr ail ymweliad hwn, cafwyd ganddynt nifer o awgrymiadau pellach hynod o ddefnyddiol gan gynnwys:

- Y math o ffont, a'r maint, y dylid ei ddefnyddio ar ddeunyddiau printiedig



System ddwy haen o ganllawiau Two tier hand rail system

megis byrddau gwybodaeth, taflenni a ffurflenni ar gyfer sylwadau ymwelwyr (a'r angen i sicrhau bod y blychau ateb o faint digonol). Roeddent yn awgrymu y dylid defnyddio Arial fel ffont safonol.

- Darparu testun arddangosfa mewn fformat ffont mawr yn ogystal.
- Ailgyfeirio golau mewn arddangosfeydd i osgoi llacharedd.
- Tynnu sylw at ardaloedd lle ceir cyferbyniad gwael o fewn yr arddangosfa, ac awgrymu ffyrdd o fynd i'r afael â hyn.
- Awgrymu hyfforddiant staff, megis iaith arwyddion sylfaenol.

Mae'r amgueddfa'n bwriadu parhau i feithrin ei pherthynas â'r Grŵp Mynediad gan ei fod wedi dangos ei fod yn ffynhonnell amhysiadwy o wybodaeth a chyngor defnyddiol ac ymarferol.

Cynhorion Defnyddiol

- Os yn bosibl, cysylltwch â'ch grŵp mynediad pan fo'r prosiect/safle'n cael ei ddatblygu.
- Fel arall, cysylltwch â'r grŵp cyn gynted â phosibl, gan y bydd yn gallu rhoi cyngor defnyddiol i chi ar sut i addasu eich prosiect/safle lle bo hyn yn ymarferol.
- Gallwch gysylltu â'r grŵp lleol drwy eich awdurdod lleol. Ffoniwch y cyngor lleol a gofynnwch am y Swyddog Mynediad, a fydd yn falch o'ch helpu.
- Treuliwch amser yn meithrin perthynas gyda'ch Grŵp Mynediad lleol. Mae'r berthynas yn gweithio ddwy ffordd, ac os yw'r grŵp yn gadarnhaol am eich safle, gallai hyn olygu y cewch fwy o ymwelwyr.
- Peidiwch â meddwl bod unwaith yn ddigon. Gyda threigl amser, ac wrth i'r safle ddatblygu, gwahoddwch y Grŵp Mynediad yn ôl drachefn. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn cynnal safonau mynediad da.



- Mae'r Grwpiau Mynediad yna i fod o gymorth, ac maent yn hynod o gadarnhaol ac ymarferol yn ein profiad ni, felly peidiwch â bod ofn gofyn am eu cymorth.
- Hoffem ddiolch i S. a J. Cooper o Grŵp Mynediad Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Emma Wilson yw Swyddog Amgueddfeydd a Threftadaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. e-bost wilsoe@caerphilly.gov.uk

Mae Ruth Taylor Davies yn rhedeg Letha Consultancy. e-bost lethaconsultancy@fsmail.net

Rôl Dehongli mewn Twristiaeth

Ionawr 26-27ain 2011

Yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd, ynghyd ag ymweliadau safle.

Peidiwch â methu digwyddiad deuddydd Dehongli Cymru, a fydd yn edrych ar bwysigrwydd dehongli mewn twristiaeth, gan gynnwys sut y gall dehongli wneud i leoliadau sefyll allan yn erbyn eu cystadleuwyr.

Bydd y siaradwyr yn cynnwys:

- **Michael Day:** Prif Weithredwr, y Palasau Brenhinol Hanesyddol
- **Marilyn Lewis:** Cyfarwyddwr, Cadw
- **David Anderson:** Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd Amgueddfa Cymru
- **Tony Berry:** Pennaeth Profiad Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- **Jonathan Jones:** Cyfarwyddwr, Croeso Cymru
- **Alun Ffred Jones AC:** Y Gweinidog Treftadaeth

Gallwch arbed £15 os byddwch yn bwcio cyn 30.11.10 (£110)

Access all areas



System ddwy haen o ganllawiau
Two tier hand rail system

Have you involved your Local Access Group? **Ruth Taylor-Davies** and **Emma Wilson** did, and found that Access Groups really are the experts when it comes to improving access for everyone.



Amlygiad ffenestr ar wydr
Window manifestation on glass

The Winding House in New Tredegar is the museum for Caerphilly County Borough. Housed in a striking, glass-fronted structure that has been constructed around the former Elliot Colliery Winding House, the museum houses a range of attractions and exhibitions reflecting the rich and colourful history of Caerphilly County Borough. Strong community involvement was central to the project, which was funded by the European Union's Objective 1 Programme, the Welsh Assembly Government and Caerphilly County Borough Council.

Providing excellent physical and intellectual access was, and continues to be, high on the Winding House's list of priorities. During the planning, development and implementation phases, the Museums and Heritage Service within the County Borough were keen to seek expert practical advice from the local Access Group. The Caerphilly County Borough Access Group came in and worked with officers to ensure that, physically, the museum building was as accessible as possible. The group were able to advise on a range of issues, and provided practical guidance on many areas of the Museum's development. They were particularly helpful in:

- Reminding us about how to create and keep unimpeded access
- The need to install a loop system for the hard of hearing
- The importance of the use of colour and contrast in creating a safe and welcoming environment for partially sighted visitors. Colour and tone contrast should be provided between floor and wall, wall and radiator, chair and floor, door and surround, switches and their surroundings, power points and wall, whilst toilet seats should contrast in colour with the toilet itself.

- The installation of suitable handrails (the Winding House has a two tier rail system suitable for a range of users) and ensuring compliance with Building Regulations parts K and M.
- The need to ensure that floor length glass panels are marked with 'manifestations' (etched stickers) of varying shades to ensure contrast. It's recommended that at least 1 in 5 manifestation 'logos' should be dark, as the 'white' logo can be lost on bright days.
- The layout of the café to ensure that people of all abilities can move easily around the space. Some chairs should have arms and the seat height should be approximately 450mm above the floor, to enable people with restricted mobility to sit down and get back up more easily.
- The positioning of practical things such as light switches, plug points, door handles. Power points should be located between 400 & 1000mm from the floor, with a preference for the lower range, whilst door furniture should be 'easy grip', and located between 900 & 1500mm from the ground.
- Door width specifications, which for internal doors should be at least 800mm wide, preferably 1000mm wide.

These points were taken on board enthusiastically and implemented by the Winding House project team. The relationship between the Access Group and the Winding House didn't end there. A year in to the museum's operation, they were invited back as part of the site's Access and Audience Development planning process. This was an exceptionally useful exercise as the Access Group now had a chance to see how the building worked in practice. The group made a thorough site

visit with officers and were always practical and positive. As a result of this follow up visit they made some further very useful suggestions including:

- The type and size of font that should be used on printed materials such as information boards, leaflets and visitor comment forms (and the need to ensure that the reply boxes are a decent size). They suggested using Arial as a standard font.
- Providing exhibition text in an alternative large font format.
- Redirecting lighting in exhibition cases to avoid glare.
- Highlighting areas of poor contrast within the exhibition, and suggesting ways of rectifying it.
- Suggesting staff training such as basic sign language.

The museum intends to continue to foster its relationship with the Access Group as they have proved themselves an invaluable source of information and helpful, practical advice.

Top Tips

- If you possibly can, enlist your access group whilst your project/site is still in its development stage.
- If not, engage them as soon as possible as they will be able to provide useful advice on how to adapt your project/site where practical.
- You can access your local group via your local authority. Just ring your local council and ask for the Access Officer who will be pleased to help you.
- Spend time building a relationship with your local Access Group. The relationship is two way, and if they are positive about your site, it could mean more visitors.
- Don't think that once is enough. As time passes and your site develops invite the



Access Group back. They'll be useful in ensuring that you maintain good access standards.

- Access Groups are there to help, and in our experience are very positive and practical, so don't be afraid to ask for their advice.

We would like to thank S. & J. Cooper of the Caerphilly County Borough Access Group.

Emma Wilson is Museums and Heritage Officer for Caerphilly County Borough Council
e. wilsose@caerphilly.gov.uk

Ruth Taylor Davies runs Letha consultancy
e. lethaconsultancy@fsmail.net



Seddi gyda breichiau i'w gwneud yn haws eistedd a chodi. Seats with arms make it easy to sit down and get up



The Role of Interpretation in Tourism

January 26 - 27th 2011

At the National Museum of Wales, Cardiff and site visits

Don't miss Interpret Wales' two day event exploring the importance of interpretation to tourism; including how interpretation has the potential to make destinations stand out against competitors.

Speakers include:

- **Michael Day:** Chief Executive, Historic Royal Palaces
- **Marilyn Lewis:** Director, Cadw
- **David Anderson:** new DG of National Museum Wales
- **Tony Berry:** Head of Visitor Experience National Trust
- **Jonathan Jones:** Director, Visit Wales
- **Alun Ffred Jones AM:** the Heritage Minister

Save £15 if you book before 30.11.10 (£110)



Profiadau ym myd dehongli

Ar ôl 35ain mlynedd yn y 'busnes', mae **Phil Jayne** yn rhannu rhai o'i brofiadau ym myd dehongli. Aeth **Ruth Waycott** i'w weld yn ei gartref yn Llangenau, a buont yn sgwrsio dros banded o de a bisgedi brau.



Parc Treftadaeth y Rhondda - heddiw Rhondda Heritage Park - today



Canolfan Gwybodaeth ym Mhrosiect Coedwig Rhondda, 1970au (Phil ar y pen (i'r dde)) Information Centre at Rhondda Forest Project, 1970s (Phil far right)



Cartŵn ymaddasiad i daith gerdded dan fwgwd 1990au Acclimatisation blindfold walk cartoon 1990s



Prosiect Mynydd Caerffili 1980au Caerphilly Mountain Project 1980s

Mae'n debyg y byddai'n ymddangos yn ddiffas iawn yn ôl safonau heddiw. Yn y Gilfach-goch (sy'n enwog am 'How Green was my Valley'), roedd yr holl byllau glo wedi diflannu, ac fe ges i'r gwaith o osod placiau i ddangos ble'r oedd y pyllau'n arfer bod. Gosodwyd slabiau o dywodfaen Pennant ar y safle, cafwyd arlunydd i ddarlunio'r lofa fel ag yr oedd, ac fe wnes i ysgrifennu'r 'ffeithiau'. Mae rhai o'r cerrig yn dal yno heddiw, ond dydy'r placiau ddim wedi goroesi treigl amser!

Yn y 1970au, fe fues i'n gweithio gyda Phrosiect Coedwig Rhondda. Doedd y gymuned leol ddim yn hapus gyda pheth o'r gwaith plannu yr oedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi'i wneud, ac roedd y Comisiwn yn awyddus i gyflwyno'r

ar ôl graddio, ac roeddwn i wrth fy modd yn dysgu ond yn casáu ysgolion. Dangosodd Doug Hillier, un o'r darlithwyr, i mi fod yna ffyrdd o ddysgu y gall pobl eu mwynhau. Mi wnaeth hyn i mi newid cyfeiriad. Roeddwn yn awyddus i wneud rhywbeth a fyddai'n cyfuno gwaith ymarferol a'm cariad at yr awyr agored. Fe fues i'n ffodus iawn, ac fe ges i swydd fel Ceidwad Cefn Gwlad gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol – lle roeddwn i'n gallu gwneud y ddau beth. Roedd dehongli'n beth eitha' newydd.

Ruth: Allwch chi ddweud wrtha i beth yw eich Cymwysterau Addysgol?

Phil: Mae gen i radd mewn Sŵoleg, ac mae gen i gymwysterau ôl-radd mewn addysg a chynllunio gwlad a thref.

Ruth: Beth oedd eich dyheadau cynnar?

Phil: Roeddwn i eisiau bod yn athro.

Ruth: Beth wnaeth i chi newid eich meddwl a throi at fydd dehongli?

Phil: Roeddwn i'n arfer gweithio fel garddwr bob haf ym Mharc Pont-y-pŵl. Roeddwn wrth fy modd yn gweithio yn yr awyr agored. Fe wnes i ymarfer dysgu

syniad o goetiroedd fel cynefinoedd newydd. Fe wnaethom ni rywbeth newydd a chyffrous. Fe wnaethom ni benderfynu cynnal saffaris gyda cherbydau Landrover drwy'r coed dros fynydd y Rhigos, gan roi sylwebaeth ar hyd y ffordd. Fe wnaethom ni hefyd roi cynnig ar syniadau eraill fel Teithiau Tywys, ac roedd y rhain yn hynod o lwyddiannus. Daeth 200 o bobl at ei gilydd ar gyfer un daith Ddaear. Doedden ni ddim yn gwybod dim am farchnata, a ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Roeddem ni'n sicr yn torri tir newydd yr adeg honno.

Ruth: Pwy arall a ddylanwadodd ar eich gyrfa?

Phil: Gwraig o'r enw Jenny Tann a oedd yn cadw siop wlaen a melysion yn Ferndale – fe fu hi farw y llynedd yn anffodus. Roedd hi'n naturiaethwraig frwd, ac fe wnaeth hi ac aelodau eraill o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt wirfoddoli i fynd gyda phlant lleol i chwilio am greaduriaid dŵr mewn pyllau. Ac fe gawson nhw un o wobrau Tywys Cymru! Roedd hyn yn beth chwyldroadol ac arloesol iawn yr adeg honno ...

Fe es i hefyd ar rai o'r cyrsiau cynnar oedd yn cael eu cynnal yn Losehill Hall yn Swydd Derby. Roedd y rhain yn gyrsiau dwys a hynod heriol. Roeddwn i'n gweithio gyda phobl arbennig iawn ac yn gwneud gwaith arloesol. Mae'n syndod beth allwch chi ei wneud gyda pheiriant llungopio!

Ruth: I symud ymlaen ...

Phil: Yn y 1980au roeddwn i'n Swyddog Prosiect Mynydd Caerffili. Roeddem ni'n gweithio gyda phobl ifanc ar gynlluniau cyflogaeth arbennig, gan gynnwys timau o ddehonglwr. Fe ddechreuom ni gynnal cyrsiau hyfforddi ar gyfer y graddedigion ifanc hyn, gan fanteisio ar bopeth yr oeddwn i wedi'i ddysgu yn Losehill.

Fe wnes i gyfarfod a phriodi dehonglydd a oedd yn ceisio ennill bywoliaeth o'r ddisgyblaeth newydd hon, ac fe wnes i ymweld â nifer helaeth o safleoedd ar draws y DU gyda Sally. Fe wnaeth taith i Bier Wigan newid ein bywydau. Roedd yna arwydd ar y drws yn dweud, 'Curwch y drws ac arhoswch'. Felly dyma ni'n curo ac yn aros. Rhai eiliadau'n ddiweddarach dyma'r ymgymerwr yn dod i'r drws ac yn dweud, 'Mae'n ddrwg iawn gen i am eich profedigaeth. Dewch

i mewn i'w gweld hi. Mae hi'n barod yn ei harch ar eich cyfer chi.' Dyna ffordd ddramatig o'ch cael chi i mewn i'r stori yn syth. Fe wnaeth y profiad hwn fy llorio. Roedd yn effeithio amoch yn emosiynol. Fe wnaethom ni ddefnyddio'r technegau hyn pan oeddwn i'n gweithio ar y datblygiadau ym Mharc Treftadaeth Rhondda.

Ruth: A symud ymlaen i ddyddiau Caerffili?

Phil: Roedd y Cyngor wedi ymrwmo i dreftadaeth, ac roedd hi'n bleser gweithio i Gaerffili gan nad oedd yn rhaid i ni berswadio cynghorwyr na phrif swyddogion bod dehongli yn beth da. Roedden nhw'n gwybod ei fod yn gwneud synnwyr yn amgylcheddol ac yn economaidd, ac roedd hyn yn golygu ein bod ni'n gallu cael yr adnoddau i ddatblygu nifer o brosiectau a thechnegau newydd.

Ruth: Ydy dehongli wedi ennill ei blwyf felly?

Phil: Mae dehongli wedi gwneud gwaith pwysig o ran helpu i ddiogelu a gwarchod tirwedd y Cymoedd. Ond dydw i ddim yn meddwl ein bod ni wedi rhoi'r un sylw i adrodd stori'r Cymoedd. Mae'r adnoddau yna, ond dydy popeth ddim wedi dod at ei gilydd eto. Rydw i'n credu y bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gymorth yn hyn o beth.

Hyd yma, mae dehongli wedi bod yn nwylo pobl broffesiynol, ond mae angen i ni droi at bobl leol. Rydw i'n meddwl fod gennym ni'n storiwyr gorau yn y byd yma (mae yna tua 2 filiwn o ddehonglwr posibl drwy Dde Cymru), ac rydan ni eu hangen nhw i adrodd stori'r Cymoedd. Ac fe fyddan nhw angen cymorth a hyfforddiant. Gobeithio y bydd Cynllun Tywys Bathodyn Gwyrdd HERIAN a chynllun y Llysgenhadon yn arwain at rôl newydd i bobl leol mewn dehongli.

Ruth: Felly beth oedd yr her fwyaf?

Phil: Ar ddechrau fy gyrfa roedd yn rhaid i ni ymladd yn erbyn y duedd i droi ein cefnau ar ein hanes, neu'n waeth byth, i ddileu'r dystiolaeth o'r gorffennol. Erbyn hyn, mae'r Cymoedd yn falch o ddangos eu treftadaeth. Mae Dehongli Cymru wedi gwneud gwaith ardderchog o safbwynt darparu hyfforddiant, ac wedi dod â'r dehonglwr gorau o bob rhan o'r byd yma i'n hysbrydoli a rhoi hyder i ni.

Ruth: A beth am y dyfodol?

Phil: Dyw pobl erioed wedi bod mor

barod i dderbyn gwybodaeth. Mae'r sgrin wedi dod yn fecanwaith gwybodaeth i bobl - o'r pc a'r gliiniadur, i'r ffôn symudol, iphone, ipad a sgrin gyffwrdd. Ond ai dehongli yw hyn? Y cwestiwn allweddol i ni yn awr yw, 'Os nad oes gynnwch chi gerflun Rhufeinig o'ch blaen, a allwch chi ei ddehongli?' Rydw i'n meddwl y gallwch chi, ac mae yna gynulleidfa fyd-eang ar gyfer 'rith-ddehongli'. Mae'n fath gwahanol o ddehongli ond mae'n gweithio. Mae'n cael gwared â'r rhwystr rhyngoch chi a'ch cynulleidfa. Cyfrinach dehongli yw cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan. Ein greddf naturiol ni fel bodau dynol yw *peidio* â chymryd rhan.

Yn y dyfodol, fe fyddwn ni'n 'garbon-dlawd' ond bydd gynnwch ni ddigon o amser, gobeithio, a bydd yn rhaid i ni wneud mwy o ddefnydd o'r pethau sydd wrth law. Fydd ein hwyrion a'n hwyresau ddim yn credu ein bod ni'n arfer hedfan i Awstralia dim ond i wneud yn siwr ei bod hi yno. Bydd y sylfaen ar gyfer dehongli ar gyfer ymwelwyr a thwristiaid yn newid.

Ruth: Beth yw eich hoff lyfr?

Phil: Argraffiad cyntaf o lyfr Friedman Tilden, a brynes i am £1 mewn arwerthiant llyfrau. Fe fydda i'n troi ato'n aml.

Ruth: Sut y byddech chi'n disgrifio'ch gyrfa?

Phil: Mae popeth wedi bod yn wych! Roedd hyd yn oed y swydd waethaf a ges i, yn gweithio i Gyngor Dosbarth Trefol Pont-y-pŵl yn clirio tail ac offal o ladd-dy'r Co-op yn bleser gan fy mod i'n cael cyfle i glywed storiâu'r gyrrwr lori yr oeddwn i'n cydweithio ag ef – 'Sarge' – a oedd yn ddehonglydd lleol ardderchog!

Ruth: Oes gynnwch chi unrhyw gyngor i ddarllenwyr Dehongli Cymru?

Phil: Gofynnwch gwestiynau Steve Van Matre i chi eich hun: Ar beth yr ydych chi i'n adeiladu? I beth yr ydych chi i'n adeiladu? I beth yr ydych chi i'n adeiladu? I beth yr ydych chi i'n adeiladu? Ond yn fwy na dim mwynhewch bob eiliad!

Ymdeolodd Phil Jayne o'i swydd fel Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Thirlunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ym mis Ebrill eleni.



After 35 years in the 'business' **Phil Jayne** shares a few of his 'brushes with interpretation'. **Ruth Waycott** caught up with him at his Llangenny home.

Some brushes with interpretation

Ruth: Can you tell me about your Educational Qualifications?

Phil: Degree in Zoology, then postgraduate qualifications in education and town and country planning

Ruth: What were your early career aspirations?

Phil: I was aiming to be a teacher

Ruth: So how did you move from aspiring teacher to the world of interpretation?

Phil: I worked every summer as a gardener at Pontypool Park. I just loved working outdoors. I did teacher training after my degree, loved teaching but hated schools. One of the lecturers – Doug Hillier – showed us that there are ways of teaching that people can actually enjoy. This changed my direction. I wanted to do something that would combine practical work with communicating my love of the outdoors. I was lucky and got a job as a Countryside Ranger with Mid Glamorgan County Council – where I could do both.

Interpretation was all very new. It would probably seem a bit tame by today's standards. At Gilfach Goch (famous for 'How Green was my Valley') all the collieries had gone, and I was

charged with putting up plaques showing where the mines had been. Slabs of pennant sandstone were placed on site, an artist came up with pictures showing the colliery as it had been and I wrote 'the facts'. Some of the stones are still there today, but the plaques haven't survived the passage of time!

In the 1970s I was involved with the Rhondda Forest Project. The Forestry Commission had, its fair to say, upset some of the local community with its planting and wanted to introduce people to the idea of woodlands as new habitats. We did something new and daring. We ran Landrover safaris over the Rhigos mountain, giving people a commentary along the way. We tried other ideas such as Guided Walks and they were really successful. On one Geology walk over 200 people turned up. We didn't know anything about marketing and didn't know what to expect. It was certainly very experimental then.

Ruth: So who else influenced your career?

Phil: Jenny Tann who ran a wool and sweet shop in Ferndale, and sadly died last year, was an ardent naturalist. She did pond dipping with the Wildlife Trust

for local children. They got a Prince of Wales award! It all seemed very revolutionary and state of the art....

I went on some of the early courses at Losehill Hall in Derbyshire. Intense and emotionally draining, I found myself working as part of a team with very special people doing groundbreaking work. It was a revelation what exciting things you could do with a photocopier!

Ruth: Hmm, moving on

Phil: In the 1980s I became Caerphilly Mountain Project Officer. We worked with young people on special employment schemes, including teams of interpreters. We did training courses for these young graduates, roughly plagiarising everything I'd learnt at Losehill.

I met and married an interpreter who was trying to make a living out of this new discipline and with Sally I visited many sites across the UK. A trip to Wigan Pier was life changing. A sign on a door said 'Knock and wait'. So we knocked and waited. Some moments later an undertaker answered the door with the words 'I'm so sorry for your loss, please come in and see her; she's laid out in the coffin for you'. That's one hell of a way to get you right into a story. It floored me. It was all about getting the emotions involved. We used these techniques when I worked on the development of Rhondda Heritage Park.

Ruth: Moving on to Caerphilly days?

Phil: The Council was committed to heritage, so working for Caerphilly was a delight. We didn't have to persuade councillors or chief officers that interpretation was a good thing. They knew it made environmental and economic sense. It meant we were able to secure resources to develop projects and new techniques.

Ruth: So has interpretation come of age?

Phil: It's done great work in helping to conserve and protect the landscape of the Valleys. But I don't think we've given the same attention to telling the stories of the Valleys. I think that the Valleys Regional Park will help.

Interpretation has been dominated by professionals, but we need to look to local people. I think we have the best story tellers in the world here (about 2 million potential interpreters across

South Wales) and we need them to tell the story of the Valleys. They will need support and training. HERIAN's Green Badge Guiding scheme and the Ambassadors scheme are hopefully the start of a new role for local people in interpretation.

Ruth: So what's been the biggest change?

Phil: In my early career we fought against turning our backs on our history and scraping away all evidence of the past. Now the Valleys are proud to show off their heritage. Interpret Wales has done a wonderful job of providing training, bringing the best interpreters from around the world to inspire us and give us confidence.

Ruth: And what about the future?

Phil: People are more open about receiving information. The screen has become a great mechanism for letting people find out - from the pc to the mobile phone, iphone, and touchscreen. But is this

interpretation? The burning question for us now is, 'if you haven't got a Roman statue in front of you, can you still interpret it?' I think you can, and that there's a worldwide audience for 'virtual' interpretation. It's a different type of interpretation - it removes barriers between you and your audience. And the secret to interpretation is to remove the barriers that prevent people getting involved. As human beings our normal instinct is *not* to get involved.

In the future we will be carbon poor and, hopefully, time rich so we'll have to make more out of the things on our doorstep. Our grandchildren will not believe that we used to fly to Australia just to make sure it was there. The basis for interpretation for visitors and tourists will change.

Ruth: What's your favourite book?

Phil: A 1st edition copy of Friedman Tilden's book that I bought for £1 at a booksale.

Ruth: How would you sum up your career?

Phil: Everything has been marvellous! Even the worst job, working for Pontypool Urban District, clearing manure and offal from the Co-op slaughterhouse, was made a pleasure by the stories of the lorry driver I worked with, 'Sarge' – a great local interpreter!

Ruth: Any advice for IW readers?

Phil: Ask yourself Steve Van Matre's questions: What am I building on? And what am I building too? How do you want your audience to change, having been through your process of interpretation?

Above all...enjoy every minute of it!

Phil Jayne retired as Manager for Countryside and Landscape Services at Caerphilly County Borough Council in April this year.



Parc Treftadaeth y Rhondda - heddiw
Rhondda Heritage Park - today



Grŵp Ymgynghorwyr Pobl sydd â Nam ar eu Golwg, Amgueddfa Ryfel Ymerodraethol Duxford, Gwobr Jodi 2009. Visually Impaired Advisers Group, Imperial War Museum Duxford, Jodi Award 2009.

Bob blwyddyn, mae Ymddiriedolaeth Jodi Mattes yn rhoi Gwobr Jodi i safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd ac archifdai sy'n defnyddio technoleg ddigidol i ehangu mynediad i wybodaeth, casgliadau, dysgu a chreadigrwydd ar gyfer pobl anabl.

Cafodd Gwobrau Jodi eu rhoi am y tro cyntaf yn y DU yn 2003, yn ystod Blwyddyn Pobl Anabl Ewrop, ac maent yn awr yn cael eu cefnogi gan CyMAL. Bydd yr Alwad nesaf am Enwebiadau yn cael ei gwneud ym mis Mai 2011. Dim ond dau gais o Gymru a wnaed hyd yma, a hoffai'r Ymddiriedolaeth weld rhagor o brosiectau o Gymru yn gwneud cais.

Gallwch weld astudiaethau achos o Enillwyr a Phrosiectau a Gymeradwywyd ar wefan Gwobrau Jodi, sy'n cynnwys cysylltau i adnoddau defnyddiol. Croesewir enwebiadau gan bob math o brosiectau, bach a mawr, uwch-dechnoleg a thechnoleg isel. Yr hyn sy'n cyfrif yw gwerth y prosiect ac ansawdd yr ymwneud â phobl anabl.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.jodiawards.org.uk.

Gwobrau Jodi ar gyfer diwylliant digidol hygyrch

The Jodi Awards for accessible digital culture

Every year, the Jodi Mattes Trust gives the Jodi Award to heritage sites, museums, galleries, libraries and archives which use digital technology to widen access to information, collections, learning and creativity for disabled people.

First given in the UK in 2003 during European Year of Disabled People, the Jodi Awards are now supported by CyMAL. The next Call for Nominations will be made in May 2011. There

have only been two applications from Wales so far and the Trust would love to see more projects applying from Wales.

You can see case-studies of Winners and Commended projects on the Jodi Award website, which also has links to useful resources. Nominations are welcomed from all kinds of projects, small and big, low-tech and hi-tech. What counts

is the value of the project and the quality of engagement with disabled people.

For more information visit: www.jodiawards.org.uk.

Enabledd yn y DU

Colli clyw -	8.5m pobl/people
Gwisgo teclynnau cymorth clyw -	2m.
Cwbl fyddar -	70,000
Defnyddio Arwyddiaith Prydain -	75,000
Colli golwg yn ddifrifol -	115,000
Darllen Braille -	20,000
Anawsterau dysgu -	1.2 m.

Disability in the UK

- Hearing loss
- Wear hearing aids
- Completely deaf
- Use British Sign Language
- Severe sight loss in Wales
- Read Braille
- Learning difficulties